Mynychwyr:

Ann Evans, Philip Blaker, Isabel Nisbet, Claire Morgan, Angela Maguire-Lewis, Caroline Burt, Robert Lloyd Griffiths, Ellen Donovan, Rheon Tomos, Alun Llwyd.

Yn Bresennol:

Alison Standfast, Kate Crabtree, Alison Rees (sylwedydd Llywodraeth Cymru), Helen Bushell (Ysgrifenyddiaeth), Kerry Price (yn bresennol ar gyfer eitem 7), Cassy Taylor (yn bresennol ar gyfer eitemau 4 a 5), Emyr George (yn bresennol ar gyfer eitemau 6 a 10), Dan Tromans (yn bresennol ar gyfer eitem 5), Liz Frizi (yn bresennol ar gyfer eitem 5), Lindsay Slavin (yn bresennol ar gyfer eitem 9),

Ymddiheuriadau:

Paul Croke, Jo Richards

1. Croeso, Ymddiheuriadau, Datganiadau o Fuddiant a'r Diweddaraf gan y Cadeirydd

1.1. Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

1.2. Cafwyd ymddiheuriadau oddi wrth Paul Croke a Jo Richards.

1.3. Ceisiwyd datganiadau. Nododd IN ei rôl ym Mhrifysgol Swydd Hertford, AL ei rôl fel Pennaeth a CM ei rôl ym Mhrifysgol Metropolitan Caerdydd.

1.4. Rhoddodd y Cadeirydd y newyddion diweddaraf mewn nifer o feysydd fel a ganlyn:

1.4.1. Cadarnhawyd y dyddiad ar gyfer cyflwyno tystiolaeth i 'Bwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg' Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar 14 Rhagfyr. Dyma fyddai'r tro cyntaf y byddai Cymwysterau Cymru wedi llunio ei dystiolaeth ac adroddiad blynyddol o ran hyn. Roedd y Cadeirydd a PB wedi cwrdd â sawl aelod o'r Pwyllgor fel cyflwyniad.

1.4.2. Roedd y Cadeirydd i fod i gwrdd â'r Cyfarwyddwr Addysg, Steve Davis, ym mis Rhagfyr fel rhan o'i hamserlen o gyfarfodydd blynyddol.

1.4.3. Nododd y Cadeirydd na fu'n bosibl ymgysylltu â'r Bwrdd llawn o ran yr ymateb i'r gyllideb i Lywodraeth Cymru ar gyfer 2017-2020. Gofynnwyd am ymateb cyflym, ac ymgynghorwyd ag AE fel Cadeirydd y Bwrdd a RLG fel Cadeirydd y Pwyllgor Adnoddau. Byddai hyn yn cael ei drafod ymhellach yn eitem 7 (adroddiad cyllid).

1.4.4. Nododd y cadeirydd y byddai cofnodion cyfarfod y Bwrdd Caeedig a gynhaliwyd ym mis Gorffennaf yn cael eu dosbarthu fel copi terfynol.

Cam Gweithredu: HB i ddosbarthu cofnodion y Bwrdd Caeedig o fis Gorffennaf fel copi terfynol

2. Cofnodion cyfarfod y Bwrdd a gynhaliwyd ar 22 Gorffennaf 2016 a'r Camau Gweithredu sy'n Codi

2.1. Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 22 Gorffennaf 2016 yn gofnod cywir o'r cyfarfod, yn amodol ar rai mân ddiwygiadau, a chytunodd y Bwrdd arnynt. Caiff y cofnodion eu cyhoeddi ar wefan Cymwysterau Cymru ar ôl eu cyfieithu. Gofynnwyd i'r Bwrdd anfon unrhyw ddiwygiadau teipograffyddol i'r cofnodion at HB drwy e-bost.

Cam Gweithredu: Aelodau'r Bwrdd i anfon diwygiadau teipograffyddol i'r cofnodion at HB

2.2. Rhoddwyd y wybodaeth ddiweddaraf ynglŷn â mater yn codi o'r cyfarfod diwethaf fel a ganlyn:

2.3. ***Adroddiad Hyder y Cyhoedd*** - rhoddodd PB y wybodaeth ddiweddaraf sef nad oedd adroddiad Hyder y Cyhoedd (y gwaith ymchwil fydd yn gosod y llinell sylfaen) wedi cael ei gymeradwyo eto. Cynigodd PB y dylid ei gynnwys fel eitem yng nghyfarfod mis Ionawr. Cytunodd y Bwrdd ei bod yn briodol sicrhau bod yr adroddiad wedi'i gwblhau gan ei fod yn amcan statudol a'i bod yn bwysig cael meincnod.

Cam Gweithredu: HB i ychwanegu Adroddiad Hyder y Cyhoedd at agenda cyfarfod y Bwrdd mis Ionawr 2017

2.4. ***Mater sy'n Codi*** - bwriodd y Bwrdd olwg dros y cofnod o gamau gweithredu a oedd wedi'i ddiweddaru i gynnwys cynnydd. Ni chodwyd unrhyw fater arall.

3. Adroddiad y Prif Swyddog Gweithredol

3.1. Nododd y Cadeirydd fod cais am benderfyniad gan y Bwrdd yn Adroddiad y Prif Swyddog Gweithredol.

3.2. Cyflwynodd PB ei bapur yn tynnu sylw at feysydd allweddol o waith fel a ganlyn:

Adolygiadau Sector

3.3. Bwriedir cynnal dau adolygiad eleni, TGCh ac Adeiladu a'r Amgylchedd Adeiledig. Mae arbenigwr sector wedi'i secondio o CITB (Bwrdd Hyfforddi'r Diwydiant Adeiladu) am dridiau'r wythnos i gynorthwyo gyda'r adolygiad Adeiladu. Yn dilyn anhawster cychwynnol wrth recriwtio arbenigedd o'r sector TGCh, mae unigolion perthnasol bellach wedi cael eu nodi. Gofynnodd y Bwrdd am gadarnhad y gellir rheoli unrhyw wrthdaro buddiannau mewn perthynas ag adolygiad y sector Adeiladu a'r Amgylchedd Adeiledig a'r CITB – cadarnhaodd PB y byddai modd gwneud hyn.

3.4. Holodd y Bwrdd a oedd digon o adnoddau amser staff ar gael i gefnogi graddau'r adolygiadau sector yn arbennig o gofio'r nifer o wersi a ddysgwyd a'r

gwelliannau a nodwyd o adroddiad yr adolygiad o fethodoleg sector. Eglurodd PB fod y ddau adolygiad wedi'u cynllunio fel rhan o'r llwyth gwaith ar gyfer eleni. Ategwyd y pryder gan Gadeirydd y Pwyllgor Rheoleiddio a nododd y cafodd y mater ei drafod yn y Pwyllgor Rheoleiddio lle yr argymhellwyd y dylai'r Prif Swyddog Gweithredol gael cefnogaeth i fwrw golwg dros amseru'r gwaith a'i oedi os bydd angen. Roedd y Bwrdd o blaid newid yr amserlen os bydd angen, er mwyn sicrhau y caiff adolygiadau eu cynnal yn drylwyr.

3.5. Iechyd a Gofal Cymdeithasol - nododd yr adolygiad fod angen cymorth mewn hyfforddiant Asesu felly comisiynwyd dau arbenigwr i lunio a chyflwyno hyfforddiant ar gyfer aseswyr ledled Cymru. Gwahoddwyd pob corff dyfarnu i gymryd rhan ac i gyfrannu materion. Ni chynlluniwyd y gwaith hwn yn y cynllun busnes yn wreiddiol ond mae'n enghraifft dda o ymateb perthnasol i fater ac o ddefnyddio Cronfa Wrth Gefn y Swyddog Cyfrifyddu.

3.6. Holodd y Bwrdd a oedd y cyflenwad o aseswyr Cymraeg eu hiaith yn rhan o'r prosiect aseswyr Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Cadarnhaodd PB nad oedd yn rhan o'r gwaith hwn ond bod darn o waith ar wahân yn cael ei wneud i bennu cwmpas rhai syniadau yn y maes hwn. Fel rhan o'r gwaith cwmpasu hwn, roedd y sefydliad yn ystyried rôl posibl fel hwylusydd, er enghraifft drwy sicrhau bod gwybodaeth am unigolion sydd â diddordeb mewn bod yn aseswyr ar gael i gyrff dyfarnu. Croesawodd y Bwrdd y gwaith cwmpasu mewn perthynas â'r gwaith hwn gan nodi y byddai'n rhaid ystyried ystyriaethau masnachol ac achosion o wrthdro buddiannau yn ofalus iawn os eid ymlaen ag unrhyw waith.

Cymeradwyo TGAU a Safon Uwch 2017

3.7. Tynnodd PB sylw at y ffaith fod hwn yn ddarn o waith allweddol a chadarnhaodd fod yr holl feysydd gwaith wedi'u graddio fel gwyrdd.

3.8. Trafododd y Bwrdd y penawdau diweddar ynglŷn â phroblemau o ran argaeledd gwerslyfrau Cymraeg a nododd bryder ynglŷn â'r mater. Eglurodd PB fod rhai o'r problemau'n deillio o'r ffaith nad oedd rhai cymwysterau yn cael eu diwygio yng Nghymru.

3.9. Eglurodd PB mai bwriad Cymwysterau Cymru yw dwyn ynghyd sefydliadau partner, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, Consortia Rhanbarthol a CBAC, i drafod yr hyn sydd ei angen ar ysgolion a cholegau.

3.10. Nododd y Bwrdd nad cyfrifoldeb Cymwysterau Cymru yw darparu gwerslyfrau ac nad yw'r cyrff masnachol sy'n darparu gwerslyfrau yn rhan o'n cylch gwaith rheoleiddio, ond mae gennym rôl o ran tynnu sylw at y mater a helpu i ddod o hyd i ateb. Fel rheoleiddiwr, gallem ohirio dyddiad cyflwyno cymwysterau newydd os nad oes adnoddau digonol yn debygol o fod ar gael yn ddwyieithog mewn pryd i'w haddysgu am y tro cyntaf.

TGAU Cymraeg Ail Iaith

3.11. Roedd y Cadeirydd, PB ac Emyr George wedi cwrdd â Chymdeithas yr Iaith i egluro dealltwriaeth Cymwysterau Cymru o bolisi Llywodraeth Cymru ar addysg

Gymraeg a rôl Cymwysterau Cymru. Dywedodd PB ei fod o'r farn fod Cymdeithas yr Iaith yn derbyn mai lle Llywodraeth Cymru yw gosod yr amserlen ar gyfer diwygio'r cwricwlwm a bod Cymdeithas yr Iaith yn derbyn na all Cymwysterau Cymru wneud unrhyw gynnydd sylweddol o ran datblygu cymwysterau i gefnogi'r cwricwlwm newydd nes bod rhagor o wybodaeth ar gael i ni.

3.12. Roedd y Gymdeithas hefyd yn gallu rhoi darlun cliriach o'i bwriad. Roedd hyn yn cynnwys cymhwyster newydd yn cael ei sefyll gan ddisgyblion mewn lleoliadau cyfrwng Cymraeg mor gynnar â 2021, ac mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg cyn gynted â phosibl ar ôl hynny.

3.13. Roedd yn arbennig o ddefnyddiol deall yr hyn sydd yn ganolog i ymgyrchu'r Gymdeithas: yr awydd i roi terfyn ar y system sy'n ffrydio disgyblion i naill ai raglen iaith gyntaf neu ail iaith ar gyfer dysgu Cymraeg, ond nid ar gyfer Saesneg. Maent am weld trefn newydd sy'n adlewyrchu'r hyn sydd ar waith ar gyfer Saesneg, lle mae disgwyliad cyffredin ar gyfer pob dysgwr.

3.14. Nododd Cymwysterau Cymru ein parodrwydd i symud ymlaen mor gyflym â phosibl i ddatblygu cymwysterau newydd i gefnogi'r cwricwlwm newydd. Roedd y Gymdeithas yn derbyn bod angen dwy neu dair blynedd i ddatblygu cymhwyster newydd ac yna bod angen amser ar ganolfannau i baratoi ar gyfer eu cynnig cyn y gellir eu cyflwyno'n llwyddiannus ar gyfer addysgu ac asesu byw. Roedd y Gymdeithas, fodd bynnag, yn amharod i ymgysylltu â sylwedd y diwygiadau cyfredol i TGAU Cymraeg Ail Iaith.

3.15. Estynnodd PB wahoddiad i Gymdeithas yr Iaith gymryd rhan yn y gwaith ymchwil y mae Cymwysterau Cymru yn bwriadu ei gynnal. Nid derbyniwyd y gwahoddiad hwn hyd yma.

3.16. Nododd y Bwrdd fod y Cadeirydd a PB wedi gwneud cais am gyfarfod â'r Gweinidog, Alun Davies, i drafod, ymysg pethau eraill, gwaith Cymwysterau Cymru yn y maes hwn.

Prosiect Casglu Data

3.17. Dywedodd PB wrth y Bwrdd fod Ofqual ar hyn o bryd yn casglu data am gofrestriadau a deilliannau cymwysterau gan gyrff dyfarnu. Mae Ofqual wedi nodi ei fwriad i roi'r gorau i'r gwasanaeth hwn ar gyfer Cymru a Gogledd Iwerddon ac wedi gofyn i Cymwysterau Cymru symud i gasglu'n annibynnol cyn gynted â phosibl - dyma oedd ein bwriad eisoes ac mae'n unol â'n nod o sefydlu annibyniaeth weithredol.

3.18. Mae tîm ymchwil Cymwysterau Cymru o'r farn y byddem yn elwa o fynediad uniongyrchol at ddata lefel disgybl; bydd data o'r manylder hwn yn gostwng nifer y ceisiadau a wneir i gyrff dyfarnu a'r baich a osodir arnynt, a gellir eu cyfuno â'r wybodaeth a geir o setiau data CYBLD (ysgolion) a Chofnod Dysgu Gydol Oes (Addysg Bellach) Llywodraeth Cymru er mwyn gallu cynnal gwaith dadansoddi soffistigedig.

3.19. Mae'r Bwrdd Rheoli wedi trafod goblygiadau a manteision casglu data ar y lefel hon ac wedi cytuno y bydd angen gwneud hynny ar gyfer rhai setiau data, felly'r bwriad yw datblygu'r gallu i ddiwallu'r angen hwn. Mae'r Bwrdd Rheoli wedi dechrau prosiect i ystyried y ffordd orau o gyflawni hyn. Alison Standfast yw noddwr y prosiect.

3.20. Mae'r prosiect yn ei gam cwmpasu ar hyn o bryd a'r bwriad yw dod â dadansoddwr busnes arbenigol i mewn i adolygu arferion Cyrff Dyfarnu presennol ac i'n helpu i benderfynu pa systemau sydd eu hangen i allu casglu, dilysu a dadansoddi'r data. Tybir y bydd yr holl ddata personol wedi'u cwmpasu gan y Ddeddf Diogelu Data, felly byddwn yn datblygu ein gallu i fodloni'r gofynion deddfwriaethol ac arfer da perthnasol. Cafwyd cyngor cyfreithiol sy'n cytuno bod casglu'r data hyn o fewn pwerau'r sefydliad – cafwyd hefyd gyngor gan Lywodraeth Cymru ynglŷn ag unrhyw oblygiadau diogelwch gwybodaeth.

3.21. Y dybiaeth yw y byddwn yn datblygu QiW fel y system ar gyfer casglu a dilysu'r data (a fyddai wedyn yn cael eu storio o fewn meddalwedd warws cysylltiedig). Byddwn yn cadarnhau'r dybiaeth hon unwaith y bydd y dadansoddwr busnes wedi cwblhau'r cam cwmpasu. Os yw'r dybiaeth yn gywir, bydd angen i ni ymgymryd â cham datblygu system ddwys ar gyfer QiW, a ffurfweddu meddalwedd warws, a fydd y tu hwnt i'r hyn y gall ein datblygwr mewnol ei gyflawni, felly bydd angen cynnal ymarfer tendro ar gyfer y gwaith.

3.22. Mae'r dadansoddwr busnes yn debygol o gostio tua £50k, a all ddod o gyllidebau presennol. Os byddwn yn bwrw ymlaen i dendro am dîm i ddatblygu QiW a ffurfweddu'r warws, yna byddai hyn yn gost ychwanegol. Ar hyn o bryd rydym yn amcangyfrif y gallai hyn gostio hyd at £100k yn ychwanegol, y gellid ei gymryd o Gronfa Wrth Gefn y Swyddog Cyfrifyddu. Mae'r dybiaeth hon wedi'i chynnwys yn y rhagolygon ariannol

3.23. Os bydd prosiect TG gwerth dros £100k yn mynd rhagddo, bydd angen cymeradwyaeth gan y Bwrdd a'r tîm noddi. Nododd y Bwrdd ei bod yn bosibl y byddai angen sicrhau'r gymeradwyaeth hon y tu allan i gyfarfodydd a drefnwyd er mwyn cwblhau cymaint o waith datblygu â phosibl o fewn y flwyddyn ariannol hon.

3.24. Gofynnodd PB i'r Bwrdd am gytundeb i fwrw ymlaen â'r cam cwmpasu gan nodi'r posibilrwydd ei bod yn debygol y caiff cais i wario mwy na £100k ei wneud i'r Bwrdd a'r Uned Noddi yn 2017. Nododd y Bwrdd y byddai cyngor cyfreithiol priodol yn parhau i fod yn ofynnol a chytunwyd ar hyn a chafodd ei nodi.

3.25. Trafododd y Bwrdd hyn, cymeradwyodd y cam cwmpasu a nododd y diweddariad. Cytunodd y Bwrdd y gallai'r Pwyllgor Rheoleiddio chwarae rhan drwy gynorthwyo'r tîm Gweithredol gyda'r prosiect hwn, os bydd angen.

Crynodeb o'r Argymhellion/Camau Gweithredu

i) Y Bwrdd i gytuno y gellir bwrw ymlaen â'r cam cwmpasu ar gyfer y prosiect casglu data – CYMERADWYWYD

Penodi Gwasanaethau Cyfreithiol

3.26. Nododd y Bwrdd, yn dilyn proses gaffael, bod cyfreithwyr newydd (Browne Jacobson) wedi cael eu penodi i ddarparu cyngor rheoleiddiol. Cadwyd Blake Morgan ar gyfer cyngor masnachol a chorfforaethol.

3.27. Gofynnodd y Bwrdd sawl cwmni o Gymru oedd wedi cyflwyno cynnig. Cadarnhaodd AS y cafwyd dau dendr gan gwmnïau o Gymru.

4. Strategaeth Cymwysterau Galwedigaethol

4.1. Ymunodd Cassy Taylor (CT) â'r cyfarfod a chyflwynodd y papur. Cyfeiriodd CT at Ddiwrnod i Ffwrdd y Bwrdd ym mis Mai 2016 lle cafwyd trafodaeth sylweddol ynglŷn â'r strategaeth Cymwysterau Galwedigaethol ac eglurodd ers hynny fod y Pwyllgor Rheoleiddio a'r Bwrdd Rheoli wedi adolygu drafftiau'r strategaeth a gyflwynwyd heddiw. Ystyriwyd yr adborth gan y ddau grŵp.

4.2. Eglurodd CT mai adolygiadau sector yw asgwrn cefn y strategaeth fel y nodir yn y papur eglurhaol.

4.3. Gweithiodd y Bwrdd drwy'r strategaeth fesul adran gan ofyn cwestiynau amrywiol a chynnig sylwadau. Holodd y Bwrdd am effaith posibl polisïau yn Lloegr. Cadarnhaodd CT fod cyfathrebu dwyffordd cadarn ar waith a bod y gydberthynas yn effeithiol. Croesawodd y Bwrdd yr ymgysylltiad hwn. Gofynnodd y Bwrdd am eglurhad pellach mewn perthynas â newidiadau polisi yn Lloegr a chydnabu y gallai fod amgylchiadau lle byddai Cymru'n arwain newid.

4.4. Nododd y Bwrdd fod trefn adolygiadau sector yn rhan bwysig o'r strategaeth, ond awgrymodd y dylid tynnu'r dyddiadau i sicrhau y gall pob adolygiad fod yn drylwyr ac nad yw'n cael ei lywio gan bwysau o ran amser.

4.5. Holodd y Bwrdd sut mae'r strategaeth yn cyd-fynd â phrentisiaethau. Cadarnhaodd CT nad yw Cymwysterau Cymru yn gyfrifol am brentisiaethau na pholisi cysylltiedig yng Nghymru. Fodd bynnag, disgwylir i brentisiaethau a ariennir yn gyhoeddus yng Nghymru ddefnyddio cymwysterau 'a reoleiddir', felly mae ein rôl bresennol wedi'i chyfyngu i reoleiddio'r cymwysterau hyn.

4.6. Llongyfarchodd y Bwrdd CT a'i chydweithwyr am ansawdd y ddogfen a chadarnhaodd ei fod yn fodlon ei chymeradwyo i'w chyhoeddi yn amodol ar brawfddarllen pellach, gwaith teiposod ac unrhyw newidiadau ansylweddol o ganlyniad i hynny.

Cam Gweithredu: CT i ystyried y sylwadau, gwneud addasiadau a phennu'r strategaeth derfynol.

Crynodeb o'r Argymhellion/Camau Gweithredu

i) Gwnaed cais i'r Bwrdd adolygu'r strategaeth, ac os oedd yn fodlon, ei chymeradwyo i'w chyhoeddi (yn amodol ar brawfddarllen pellach, gwaith teiposod ac unrhyw newidiadau ansylweddol o ganlyniad i hynny) - CYMERADWYWYD yn amodol ar gwblhau prawf cywirdeb.

5. Adolygiad o'r Sector Iechyd a Gofal Cymdeithasol

5.1. Cyflwynodd y Cadeirydd yr eitem fel eitem a phenderfyniad sylweddol ar yr agenda. Awgrymodd y Cadeirydd y dylid trafod y papurau sy'n ymwneud â'r elfen gyfyngu yn gyntaf ac yna'r papur caffael.

5.2. Cyflwynodd Kate Crabtree Dan Tromans (DT) (Pennaeth Datblygu a Chomisiynu) i'r Bwrdd ac yna cyflwynodd y papurau. Rhoddodd DT gyflwyniad PowerPoint yn crynhoi'r cefndir, y broses ymgynghori, ymatebion i'r ymgynghoriad a'r hyn a ddywedodd rhanddeiliaid ynglŷn â'r cynnig i gyfyngu ar gymwysterau iechyd a gofal cymdeithasol.

5.3. Cafodd pob ymateb ei goladu a'i ddadansoddi gan y timau Ymchwil a Datblygu / Comisiynu a'u dangos yn y papur ategol, a adolygwyd gan y Bwrdd Rheoli. Darllenodd y Bwrdd y dogfennau a thrafododd yr ymatebion.

5.4. Parhaodd KC gyda'r cyflwyniad PowerPoint gan gyflwyno'r ddau brif opsiwn i'r Bwrdd (opsiwn 1 ac opsiwn 2) gyda thri amrywiad i opsiwn 1. Roedd yr opsiynau fel a ganlyn:

5.4.1. Opsiwn 1a – Cyfyngu'r gyfres newydd o Gymwysterau Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Gofal Plant a Gwaith Chwarae a chomisiynu un corff dyfarnu i ddatblygu pob 'lot'
5.4.2. Opsiwn 1b – Fel Opsiwn 1, ond hepgor Gwaith Chwarae a Therapi Galwedigaethol o'r cyfyngiad
5.4.3. Opsiwn 1c – Fel Opsiwn 1a *neu* Opsiwn 1b, ond cyfyngu pob lot i hyd at ddau gorff dyfarnu
5.4.4. Opsiwn 2 – Peidio â chyfyngu a datblygu Meini Prawf Cymeradwyo ar gyfer cyfres newydd o Gymwysterau Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn unig

5.5. Ystyriwyd pob opsiwn o ran yr opsiwn ei hun, y manteision, yr anfanteision a'r goblygiadau o ran adnoddau. Trafodwyd y rhain yn fanwl gan y Bwrdd.

5.5.1. Opsiwn 1a oedd argymhelliad cychwynol y sefydliad, ond ar ôl ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad, argymhelliad y Bwrdd Rheoli i'r Bwrdd oedd cymeradwyo Opsiwn 1b, gyda'r Bwrdd yn cytuno i weithredu Opsiwn 1c os byddai'r Bwrdd Rheoli o'r farn bod yr opsiwn hwn yn cynnig ateb hirdymor gwell.
5.5.2. Cafodd y dull gweithredu hwn ei argymell gan nad oedd opsiwn 1c wedi cael ei gynnig fel opsiwn yn ystod yr ymgynghoriad ac roedd adborth o'r ddeialog â'r cyrff dyfarnu cyn ymarfer tendro a barn y grwpiau cynghori yn allweddol wrth wneud y penderfyniad terfynol.

5.5.3. Bu'r Bwrdd yn trafod yr argymhelliad yn drylwyr. Roedd y Pwyllgor Rheoleiddio wedi ystyried y mater yn fanwl yn ystod ei gyfarfod blaenorol ac roedd y Cadeirydd wedi gwahodd Cadeirydd y Pwyllgor Rheoleiddio gyflwyno sylwadau'r Pwyllgor.

5.5.4. Cadarnhaodd Cadeirydd y Pwyllgor Rheoleiddio fod y Pwyllgor yn fodlon bod yr ymatebion i'r ymgynghoriad wedi cael eu hystyried yn drylwyr a'u bod wedi cael eu cwblhau yn deg ac yn wrthrychol.

5.5.5. Ar ôl pwyso a mesur, cefnogodd y Pwyllgor yr opsiwn a gynigiwyd gan gydnabod ei fanteision ond cydnabu ei fod yn peri risg yng nghyd-destun y ffaith bod hwn yn benderfyniad mawr i reoleiddiwr newydd, a bod y rhan fwyaf o'r cyrff a reoleiddiwyd ganddo a ymatebodd yn anghytuno â'r cam gweithredu hwn.

5.5.6. Nododd y pwyllgor fod gwaith i'w wneud mewn rhai meysydd o ran cydberthnasau â rhanddeiliaid a meithrin ymddiriedaeth. Nododd hefyd ei bod yn hollbwysig bod yn glir ynghylch pa gymwysterau sydd o fewn cwmpas y cyfyngiad a thu allan iddo.

5.5.7. Anogodd y Pwyllgor y sefydliad i ystyried treialu agweddau perthnasol ar y cymwysterau newydd. Nododd y Pwyllgor hefyd yr angen am waith pellach ac o bosibl cyngor cyfreithiol mewn perthynas â nifer y cyrff y gellir cyfyngu iddynt. Yn olaf, cefnogodd y Pwyllgor y cynigion i gyhoeddi'r ymatebion i'r ymgynghoriad.

5.5.8. Nododd y Pwyllgor mai'r cam nesaf arfaethedig fyddai rhoi hysbysiad o'r bwriad i gyfyngu gan ganiatáu 14 diwrnod i gyrff wneud sylwadau a bod cyngor cyfreithiol wedi cadarnhau bod 14 diwrnod yn briodol.

5.5.9. Diolchodd y Cadeirydd i Gadeirydd y Pwyllgor Rheoleiddio am y mewnbwn a diolchodd i'r Pwyllgor Rheoleiddio am ystyried y mater hwn yn fanwl.

5.5.10. Parhaodd KC i amlinellu'r camau nesaf sef cyflwyno hysbysiad o'r bwriad i gyfyngu a phennu'r broses gaffael.

5.5.11. Cyflwynodd Alison Standfast (AS) Liz Frizi (LF) (Pennaeth Caffael) i'r Bwrdd ac amlinellodd yr amserlenni caffael. Yn bennaf roedd hyn yn cynnwys nifer o gamau caffael gan gynnwys ymgysylltu cyn tendr ac yna ddeialog yn arwain at gontractio gyda'r sefydliad(au) a benodwyd yn barod ar gyfer mis Medi 2017. Cyfeiriwyd y Bwrdd at y papur caffael hefyd.

5.6. Gwahoddodd y Cadeirydd y Bwrdd i ofyn am gadarnhad pellach neu holi cwestiynau os oedd am wneud hynny. Gofynnodd y Bwrdd am gadarnhad ynglŷn â nifer o feysydd gan gynnwys sut y byddai'r meini prawf pwnc drafft yn cael eu llunio, rôl a chydberthynas Cyngor Gofal Cymru, y strategaeth pennu lotiau, ystyried y defnyddiwr wrth reoli cost, y meini prawf a ddefnyddir ar gyfer asesu contractau, y defnydd o dechnoleg, asesu'r dysgu a'r dysgwyr a gwerth am arian.

5.7. Gofynnodd y Bwrdd hefyd am gadarnhad y byddai'r cymwysterau a gomisiynwyd yn ddarostyngedig i'r safonau rheoleiddio arferol. Cadarnhawyd y byddent. Cadarnhaodd AS y byddai'r contract yn nodi'n glir y byddai pwerau rheoleiddio'r sefydliad yn cael blaenoriaeth dros hawliau a dulliau unioni cytundebol.

5.8. Gofynnodd y Cadeirydd am farn y Bwrdd mewn perthynas â'r penderfyniadau sydd i'w gwneud. Yn gryno, cymeradwyodd y Bwrdd y ddau argymhelliad uchod gyda'r sylwadau canlynol:

5.8.1. Dylid geirio'r hysbysiad o'r bwriad i gyfyngu yn ofalus gan ystyried y cyngor cyfreithiol o ran nifer y sefydliadau i gyfyngu iddynt.
5.8.2. Rhoddir cadarnhad o ran pa gymwysterau a gyfyngir a'r effaith ar gymwysterau cyfredol.
5.8.3. Dylai'r tîm Gweithredol ystyried treialu agweddau ar y cymwysterau newydd lle y bo'n briodol (unwaith y bydd y contract a'r cymwysterau wedi cael eu llunio ac nid yn ystod y cam caffael).

5.9. Mae'r Bwrdd yn cydnabod y byddai angen rhith gyfarfod er mwyn gwneud y penderfyniad terfynol ynghylch y mater hwn unwaith y byddai terfyn amser yr hysbysiad o'r bwriad i gyfyngu wedi mynd heibio a bod unrhyw sylwadau wedi cael eu hystyried.

Crynodeb o'r Argymhellion/Camau Gweithredu:

i) Cymeradwyo'r dull caffael mewn egwyddor yn amodol ar y penderfyniad ynghylch pryd/p'un a ddylid dechrau'r broses gaffael ei hun - CYMERADWYWYD.

ii) Ystyried yr argymhellion a amlinellir fel opsiwn 1B yn yr Adroddiad ac, os y gwêl mai dyma sydd orau, cymeradwyo'r argymhelliad hwnnw (yn amodol ar yr ymatebion i'r hysbysiad o'r bwriad i gyfyngu) – CYMERADWYWYD.

iii) Cymeradwyo cyflwyno Rhestr o Gymwysterau Blaenoriaethol (PQL) i Ysgrifennydd y Cabinet yn cydnabod y cymwysterau cyfyngedig - CYMERADWYWYD.

iv) Dirprwyo'r penderfyniad i weithredu Opsiwn 1C i'r tîm gweithredol os bydd angen

Cam Gweithredu: KC i fynd ymlaen a llunio'r hysbysiad o'r bwriad i gyfyngu cymwysterau iechyd a gofal cymdeithasol a'i gyflwyno, gan ystyried y pwyntiau a wnaed uchod gan y Bwrdd

Cam Gweithredu: HB i drefnu galwad cynadledda ar gyfer y Bwrdd i ystyried unrhyw benderfyniad terfynol o ran y cyfyngiad i gymwysterau iechyd a gofal cymdeithasol

6. Cyfresi Arholiadau'r Haf a Thachwedd 2016

6.1. Cyflwynodd PB y papur yn absenoldeb Jo Richards, yn tynnu sylw at lwyddiannau a throsolwg o Ddigwyddiadau y rhoddwyd gwybod amdanynt ac a reolwyd.

6.2. Nododd PM fod y dyfarniadau, ar y cyfan, yn sefydlog iawn. Nododd PB y bu cynnydd mawr yng ngharfan TGAU Gwyddoniaeth a bod problemau o ran

perfformiad disgyblion 17 oed sy'n ailsefyll TGAU Mathemateg a Saesneg hefyd i'w gweld yn Lloegr

6.3. Bu'r arolwg ‘Dweud eich dweud’ yn llwyddiant a Chymru yw'r wlad gyntaf i gynnal y math hwn o arolwg. Yn dilyn gwaith dadansoddi, ymatebir i unrhyw faterion sy'n codi o'r arolwg a/neu gwneir gwaith dilynol priodol.

6.4. Llongyfarchodd y Bwrdd y tîm am oruchwylio cyfres arholiadau'r haf yn llwyddiannus gan nodi mai dyma oedd y risg fawr gyntaf i'r sefydliad yn ystod ei oes fer.

6.5. Gan droi at gyfres mis Tachwedd, nododd PB y byddai'r TGAU Mathemateg newydd yn cael ei ddyfarnu am y tro cyntaf a bod lefelau ymgeiswyr yn llawer uwch nag mewn blynyddoedd blaenorol. Yn ystod cyfnod o newid, byddai rheoleiddiwr fel arfer yn dibynnu ar yr egwyddor canlyniadau cymaradwy i gynnal safonau, ond ni ellir defnyddio hyn yn yr achos hwn oherwydd bod nifer y newidiadau yn rhy fawr, er enghraifft, y newid o un cymhwyster i ddau, y newid o fodel dwy haen i fodel tair haen, a'r newid sylweddol yn y garfan.

6.6. Er mwyn sicrhau y gellir cwblhau dadansoddiad estynedig o'r dyfarniad arfaethedig cyn cyhoeddi'r canlyniadau, penderfynwyd y caiff y dyddiad cyhoeddi canlyniadau ei ohirio tan drydedd wythnos mis Ionawr (2017), wythnos yn ddiweddarach. Bwriedir cyfleu'r wybodaeth i ysgolion a'r cyfryngau. Mae'r Pwyllgor Rheoleiddio wedi ystyried nifer o agweddau ar y Gyfres Arholiadau ac roedd o blaid y penderfyniad i ohirio.

7. Adolygiad Chwe Mis

Adroddiad ar y Cynllun Busnes - Chwarter 2

7.1. Cyflwynodd AS yr eitem gan egluro y byddai Helen Bushell (HB) (Pennaeth Llywodraethu Corfforaethol) yn cyflwyno'r adroddiad ar y cynllun busnes ac y byddai Kerry Price (KP) (Pennaeth Cyllid) yn cyflwyno’r adroddiad cyllid. Nododd AS fod yr adroddiad cyllid hefyd yn cynnwys y rhagolwg ariannol tymor canolig sy'n bwynt trafod pwysig.

7.2. Darparodd HB drosolwg o'r papur i'r Bwrdd a nododd mai hwn oedd yr ail dro i'r Bwrdd dderbyn yr adroddiad yn y fformat newydd hwn. Crynhôdd yr adroddiad gynnydd chwarter 2 (Gorffennaf i ddiwedd Medi) ar gyfer 2016/17.

7.3. Tynnodd HB sylw at y nodiadau esboniadol am bob blaenoriaeth gan gadarnhau unwaith eto yr ystyr y tu ôl i'r graddfeydd Coch, Ambr a Gwyrdd (RAG). Er enghraifft, roedd ambr yn golygu y byddai'r gweithgaredd yn cael ei gyflawni o fewn goddefiannau cytûn.

7.4. Holodd y Bwrdd a oedd y cynllun yn ddigon heriol o ystyried nifer y graddfeydd gwyrdd o fewn yr adroddiad. Eglurodd HB y pennwyd y graddfeydd yn erbyn gweithgarwch o fewn y cynllun ac felly roedd gwyrdd yn atgyfnerthiad cadarnhaol bod y cynllun ar y trywydd iawn. Ychwanegodd HB y gellir newid

amseroedd o fewn y flwyddyn wrth i waith cynllunio gael ei ddatblygu ymhellach.

7.5. Nododd y Bwrdd gynnydd a chadarnhaodd fod yr adroddiad yn ddefnyddiol. Nododd y Bwrdd hefyd fod y lefel uwch o eglurhad yn y meysydd ambr wedi bod yn ddatblygiad defnyddiol yn dilyn adroddiad chwarter un.

Adroddiad Cyllid – cyllideb a rhagolwg gan gynnwys Cynllun ariannol tymor canolig

7.6. Cyflwynodd KP y papur adroddiad cyllid gyda throsolwg ar gyllideb blwyddyn 2016/17. Cadarnhaodd KP fod y gyllideb wedi cynyddu £140k oherwydd bod y grant Cymraeg i Oedolion wedi'i drosglwyddo o Lywodraeth Cymru i Cymwysterau Cymru i'w reoli.

7.7. Rhoddodd KP drosolwg o'r adolygiad chwe mis a gwblhawyd gyda deiliaid cyllidebau ac a ystyriwyd gan y Pwyllgor Adnoddau ac yna gan y Bwrdd Rheoli. Dangosodd y rhagolwg danwariant o £608k, gyda rhywfaint o hynny oherwydd amseru taliadau. Er enghraifft, roedd bil cyflogres y mis blaenorol yn dal i ymddangos yn y rhagolwg yn unol â'r gweithdrefnau cyfrifyddu.

7.8. Cododd y Bwrdd rai pryderon ynglŷn â lefel y tanwariant a ragwelwyd, yn enwedig gyda chymaint yn dod o gyflogau, ac roedd am ddeall hyn yn well. Rhoddodd KP a PB sicrwydd i'r Bwrdd nad oedd y tanwariant cyflogau yn destun pryder ond yn hytrach ei fod yn adlewyrchu'r oedi rhwng yr adeg pan fo LlC yn rheoli'r gyflogres ac yna'n anfonebu Cymwysterau Cymru. Eglurwyd nad oedd Cymwysterau Cymru yn cronni fesul mis gan y byddai'r gwaith o wneud hyn yn anghymesur i faint a gofynion y sefydliad. Defnyddir rhagolygon misol a gwneir croniadau gwirioneddol ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

7.9. Cadarnhaodd PB ei fod yn hyderus fod gan y sefydliad ddealltwriaeth glir o'i sefyllfa ariannol.

7.10. Yn dilyn trafodaeth, cytunwyd y dylid adolygu arddull a chynnwys adroddiadau i'r Bwrdd.

Cam Gweithredu: KP i ystyried arddull a chynnwys adroddiadau cyllid yn y dyfodol a chyflwyno hyn yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Ionawr.

7.11. Trafododd y Bwrdd y cynnig a wnaed i ddatgan tanwariant o £250k i Lywodraeth Cymru (drwy'r Uned Noddi). Trafodwyd hyn yn flaenorol ac roedd deillio o danwariant a ragwelwyd yn gynharach yn y flwyddyn. Gofynnodd y Bwrdd a fyddai risg ynghlwm â datgan tanwariant, pe byddai angen y cyllid yn ddiweddarach a chafodd y Bwrdd ei gynghori bod y rhagolwg gwariant yn cynnwys darpariaethau na fyddai'n cael eu gwireddu'n llawn o bosibl.

7.12. Yn dilyn trafodaeth, cymeradwyodd y Bwrdd yr argymhelliad y dylai'r Prif Swyddog Gweithredol ddatgan gwarged a ragwelir o £250k i'r Uned Noddi.

Crynodeb o'r Argymhellion/Camau Gweithredu

i) Y Bwrdd i nodi'r sefyllfa ariannol gyfredol – NODWYD
ii) Y Bwrdd i gymeradwyo bod y Prif Swyddog Gweithredol yn datgan gwarged a ragwelir o hyd at £250k i'r Uned Noddi – CYMERADWYWYD

Adroddiad Cyllid – cynllun ariannol tymor canolig

7.13. Ailategodd PB bwyntiau cynharach y Cadeirydd o'r Diweddaraf gan y Cadeirydd (eitem 1) mai cyfnod byr a fu i ystyried y ceisiadau ariannol gan Lywodraeth Cymru.

7.14. Cadarnhaodd KP fod gostyngiad o 4% yn nyraniad grant Cymwysterau Cymru wedi'i gyhoeddi yng nghyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru a gyhoeddwyd ar 18 Hydref 2016. Mae'r gyllideb ddrafft newydd o £8.042m yn cynnwys dyraniad ariannol a dyraniad nad yw'n ariannol yn ogystal â'r gyllideb Cymraeg i Oedolion. Cytunwyd ar hyn ar y sail na fyddai unrhyw leihad pellach yn y ddwy flynedd ganlynol.

7.15. Disgwylir i'r £8.042m gael ei ddefnyddio fel y gyllideb llinell sylfaen yn y dyfodol. Ni ragwelir gostyngiad pellach yn 2018/19 ymlaen ar hyn o bryd, ond nododd Llywodraeth Cymru na allai ddarparu cyllidebau dangosol tair blynedd. Cydnabu KP y dylem felly lunio cynllun tymor canolig i dymor hwy yn hyn o beth.

7.16. Cadarnhaodd KP hefyd fod elfen graidd o'r cytundeb i ostwng cyllideb y flwyddyn nesaf o 4% yn seiliedig ar y ffaith y byddai'r hyn a ddygir ymlaen i 2017/18 yn cynyddu i 4% o 2% i ategu trefniadau adnewyddu caledwedd TG.

7.17. Cododd y Bwrdd bryder sylweddol ynglŷn â hyn yn cael ei ddefnyddio fel llinell sylfaen ar gyfer sefydliad mor ifanc, yn arbennig gyda'r cynnydd arfaethedig mewn diwygiadau i gymwysterau galwedigaethol. Nodwyd hefyd y byddai gostyngiad o 4% yn arwain at ostyngiad uwch mewn arian parod mewn termau real. Cytunodd y Bwrdd y dylai'r Cadeirydd ysgrifennu at Lywodraeth Cymru i leisio'r pryderon hyn yn ffurfiol ac yn gadarn.

Cam Gweithredu: Y Cadeirydd i ysgrifennu at Lywodraeth Cymru i leisio pryderon y Bwrdd, yn arbennig ynglŷn â llinell sylfaen cyllidebau'r dyfodol.

8. Atodlen Awdurdodau Ariannol

8.1. Cyflwynodd KP y papur a'r atodlen yn cadarnhau bod y sefydliad wedi ymrwymo i adolygu'r atodlen yn flynyddol. Adolygwyd yr atodlen yn fanwl gan y Pwyllgor Archwilio a Risg ac roedd nawr yn cael ei chyflwyno i'r Bwrdd i gael ei hadolygu a'i chymeradwyo.

8.2. Cadarnhaodd Aelodau'r Pwyllgor Archwilio a Risg eu bodlonrwydd â'r atodlen newydd.

8.3. Adolygodd y Bwrdd y ddogfen a chadarnhaodd ei fod yn ei chymeradwyo. Diolchodd y Bwrdd i KP am ei waith paratoi ar gyfer y Bwrdd.

Crynodeb o'r Argymhellion/Camau Gweithredu

i) Adolygu'r gwaith a wnaed, a chymeradwyo'r Atodlen Awdurdodau Ariannol ddiwygiedig - CYMERADWYWYD

9. Diweddariad ar yr Adroddiad Blynyddol

9.1. Cyflwynodd AS yr eitem a chadarnhaodd ei bod yn ceisio cymeradwyaeth y Bwrdd i gymeradwyo'r adroddiad blynyddol, yn amodol ar unrhyw fân newidiadau a nodir. Hefyd, cyflwynodd AS Lindsay Slavin (LS) (Rheolwr Sianelau Digidol) a ddyluniodd a rheolodd y gwaith o gynhyrchu ffurfiau print ac electronig yr adroddiad.

9.2. Croesawodd y Bwrdd ddrafft terfynol yr adroddiad gan gydnabod ei fod yn darllen yn dda ac yn adlewyrchiad priodol o'r cyfnod cyntaf o weithgarwch.

9.3. Darllenodd y Bwrdd y ddogfen a chytunwyd ar fân ddiwygiadau i'r testun a'r fformat. Cymeradwyodd y Bwrdd yr adroddiad i'w argraffu a'i gynhyrchu'n derfynol.

9.4. Rhoddodd AS y newyddion diweddaraf y bwriedir cynnal digwyddiad lansio dros frecwast ar ddechrau mis Rhagfyr a disgwylir y caiff yr adroddiad ei gyflwyno i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ym mis Rhagfyr gyda'r Cadeirydd a'r Prif Swyddog Gweithredol yn bresennol i roi tystiolaeth.

Crynodeb o'r Argymhellion/Camau Gweithredu:

i) Y Bwrdd i awdurdodi cais i gyhoeddi'r Adroddiad Blynyddol (yn amodol ar y mân ddiwygiadau y cytunwyd arnynt) - CYMERADWYWYD

10. Strategaeth ddrafft Llywodraeth Cymru: miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050

10.1. Cyflwynodd Emyr George (EG) y papur gan egluro'r angen i'r Bwrdd gymeradwyo'r ymateb i'r ymgynghoriad oherwydd ei fod yn ymgynghoriad pwysig ac arwyddocaol.

10.2. Mae cwestiynau'r ymgynghoriad yn rhai lefel uchel felly mae'r ymatebion a gynigir o'r un lefel uchel. Roedd y neges allweddol yn yr ymateb gan Cymwysterau Cymru yn tynnu sylw at y ffaith bod angen cydweithio mewn perthynas â data.

10.3. Datganodd IN fuddiant oherwydd ei rôl ar Bwyllgor Moeseg Data y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Nododd y Cadeirydd hyn.

10.4. Trafododd y Bwrdd yr ymateb a gofynnodd i EG ychwanegu rhai enghreifftiau penodol lle roedd y sefydliad wedi dod o hyd i broblemau, er enghraifft argaeledd gwerslyfrau Cymraeg (fel y trafodwyd yn gynharach yn y cyfarfod).

10.5. Cadarnhaodd EG y byddai'r ymateb yn cael ei anfon yn ddwyieithog.

10.6. Cadarnhaodd y Bwrdd ei fod yn cymeradwyo'r ymateb yn amodol ar y newidiadau a drafodwyd a diolchodd i EG am ei waith. Nododd EG mai Lisa McDougall (Uwch Swyddog Polisi) oedd wedi drafftio'r ymateb ar ran y sefydliad.

Cam Gweithredu: EG i gwblhau'r gwaith o lunio ymatebion i'r ymgynghoriad a'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru.

Crynodeb o'r Argymhellion/Camau Gweithredu:

i. Y Bwrdd i ystyried a chymeradwyo'r ymateb i'r ymgynghoriad – CYMERADWYWYD.

11. Adroddiad y Pwyllgor Rheoleiddio

11.1. Cadarnhaodd Cadeirydd y Pwyllgor fod y Bwrdd eisoes wedi ystyried y tair prif eitem o'r Pwyllgor, sef y Strategaeth Cymwysterau Galwedigaethol, yr Adolygiad Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Chyfres Arholiadau'r Haf a Thachwedd.

11.2. Ni chodwyd unrhyw ymholiadau na materion eraill i'r Pwyllgor na ganddo.

12. Adroddiad y Pwyllgor Archwilio a Risg

12.1. Yn absenoldeb Cadeirydd y Pwyllgor, darparodd AML y wybodaeth ddiweddaraf o'r cyfarfod. Roedd prif feysydd a ystyriwyd fel a ganlyn:

12.1.1. Y wybodaeth ddiweddaraf am awdurdodau ariannol a rheoli ariannol o aed eisoes wedi'u trafod fel rhan o agenda'r Bwrdd
12.1.2. Adroddiad 'Credydwyr' Archwilio Mewnol a gafodd ei raddio'n foddhaol ac a oedd felly yn cyrraedd y targed
12.1.3. Adolygwyd y drefn rheoli risg
12.1.4. Cyflawnwyd yr achrediad Cyber Essentials Plus a nododd y Bwrdd mai Cymwysterau Cymru oedd y corff a noddir cyntaf yng Nghymru i gyflawni hyn
12.1.5. Roedd y Pwyllgor wedi cytuno ar rai eitemau sefydlog ar gyfer cyfarfodydd yn y dyfodol a fyddai'n cynnwys y blaen gynlluniwr, arfer gorau a diweddariadau technegol

12.2. Ni chodwyd unrhyw ymholiadau na materion eraill i'r Pwyllgor na ganddo.

13. Adroddiad y Pwyllgor Cydnabyddiaeth

13.1. Cadarnhaodd Cadeirydd y Pwyllgor bod dwy ran. Caiff y rhan gyntaf ei diweddaru yma a chaiff yr ail ran ei diweddaru yn yr agenda Caeedig yn ddiweddarach yng nghyfarfod y Bwrdd.

13.2. Roedd y Pwyllgor wedi cwrdd am y tro cyntaf ac wedi adolygu ei Gylch Gorchwyl ac wedi nodi meysydd a oedd yn amlwg yn gorgyffwrdd rhwng y Pwyllgor Cydnabyddiaeth a'r Pwyllgor Adnoddau. Roedd hyn yn rhannol fwriadol gan fod y Pwyllgor Cydnabyddiaeth yn gyfrifol am faterion polisi cyffredinol mewn perthynas â chydnabyddiaeth a buddiannau a'r Pwyllgor Adnoddau yn gyfrifol am fonitro'r gwaith o'u gweithredu. Caiff y Cylch Gorchwyl ei gyflwyno i'w gymeradwyo yn un o gyfarfodydd y Bwrdd yn y dyfodol.

13.3. Roedd y Pwyllgor wedi cael adroddiad defnyddiol ar Adnoddau Dynol gan Bennaeth yr Adran Adnoddau Dynol ac roedd rhai problemau ynglŷn â sicrhau cynrychiolaeth o blith y staff oherwydd lefelau ymgysylltu is na'r hyn sy'n ddymunol gan yr Undeb. Roedd y Prif Swyddog Gweithredol a staff perthnasol yn mynd i'r afael â hyn.

13.4. Trefnwyd bod y Pwyllgor yn cyfarfod unwaith y flwyddyn ond nodwyd y bydd yn cwrdd yn amlach os bydd angen.

13.5. Ni chodwyd unrhyw ymholiadau na materion eraill i'r Pwyllgor na ganddo.

14. Adroddiad y Pwyllgor Adnoddau

14.1. Cadarnhaodd Cadeirydd y Pwyllgor fod y Pwyllgor wedi cwrdd ac wedi trafod amrywiaeth o faterion gan gynnwys yr adroddiad ariannol a'r cynllun tymor canolig, y broses cynllunio busnes ar gyfer 2017/18, sawl mater yn ymwneud ag Adnoddau Dynol ac roedd wedi cynnal ei archwiliad iechyd llywodraethu.

14.2. Cynigodd Cadeirydd y Pwyllgor i'r Bwrdd y dylid dirprwyo'r gwaith o gymeradwyo Polisïau Adnoddau Dynol i'r Pwyllgor Adnoddau. Ar hyn o bryd mae'r mater hwn yn fater i'r Bwrdd. Byddai hyn yn cefnogi'r tîm Gweithredol ac yn rhyddhau cryn dipyn o amser oddi ar agenda'r Bwrdd dros y misoedd nesaf. Gallai unrhyw beth y mae'r Pwyllgor yn ystyried y dylai'r grŵp ei drafod gael ei gyfeirio at y Bwrdd o hyd. Cytunodd y Bwrdd i ystyried hyn a thrafod hyn yn ystod ei Ddiwrnod i Ffwrdd (20 Hydref). (Cytunwyd ar hyn wedyn yn ystod y diwrnod i ffwrdd).

14.3. Ni chodwyd unrhyw ymholiadau na materion eraill i'r Pwyllgor na ganddo.

15. Penderfyniadau a wnaethpwyd y tu allan i'r Pwyllgor

15.1. Nid oedd unrhyw benderfyniadau y tu allan i'r Pwyllgor i'w nodi.

16. Dyddiadau'r Cyfarfodydd Nesaf

16.1. Nododd y Bwrdd ddyddiadau'r Bwrdd hyd at fis Gorffennaf 2017.

16.2. Nododd y Bwrdd hefyd fod dyddiadau'n cael eu cynllunio hyd at fis Gorffennaf 2018 ac y cânt eu rhannu pan fyddant ar gael.

Cam Gweithredu: HB i drefnu a chadarnhau dyddiadau'r Bwrdd ac Is-bwyllgorau hyd at fis Gorffennaf 2018

17. Unrhyw Fater Arall

17.1. Cadarnhaodd PB fod Cymwysterau Cymru wedi cyrraedd rhestr fer rownd derfynol yr UK IT AWARDS ac y byddai'n mynychu digwyddiad ar 16 Tachwedd. Roedd hyn yn ymwneud â datblygiad QiW a llwyddiant y prosiect. Dymunodd y Bwrdd yn dda i PB a'r tîm ar gyfer y digwyddiad.

Daeth y cyfarfod i ben am 16.00.